Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range and Dee Valley

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

# CYDBWYLLGOR
# ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL
# BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY

**Cynhaliwyd: 26 Mehefin 2015**

**Aelod / Swyddog Arweiniol: Steve Gadd**

**Awdur yr Adroddiad: Paula O'Hanlon /Huw Rees**

**Teitl: Ffigyrau Terfynol a Chyfrifon 2014/15 y Cydbwyllgor a Chyllideb Arfaethedig 2015/16**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad?

Mae'r adroddiad yn manylu ar sefyllfa ffigyrau terfynol cyllideb refeniw yr AHNE ar gyfer 2014/15 yn ogystal â'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2015/16.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol yr AHNE ar gyfer 2014/15 a 2015/16.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Gofynnir i Aelodau nodi'r sefyllfa ariannol ar gyfer 2014/15 (Atodiad 1) a hefyd, cymeradwyo'n ffurfiol y Datganiad Cyfrifyddu ar gyfer 2014/15 ac adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Atodiad 2). Gofynnir i Aelodau hefyd gymeradwyo'n ffurfiol y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2015/16 sydd wedi ei diwygio er mwyn adlewyrchu'r newidiadau i'r ffrydiau ariannu.

## 4. Manylion yr adroddiad

Mae'r adroddiad yn darparu crynodeb o ffigyrau terfynol cyllideb refeniw AHNE ar gyfer 2014/15 fel y manylir yn Atodiad 1. Mae'r ffigyrau terfynol cyffredinol yn dangos tanwariant o £16,268 sydd wedi ei roi mewn cronfa wrth gefn i'w ddefnyddio yn 2015/16. Mae'r cynnydd yn y tanwariant o'r ffigyrau terfynol a ragwelwyd ac a

adroddwyd yng nghyfarfod y Cydbwyllgor yn Chwefror i'w briodoli'n bennaf i'r cynnydd ariannol a gyhoeddwyd gan CBSW.

Mae'r adroddiad hefyd yn darparu copi o Ddatganiad Blynyddol SAC hyd at 31 Mawrth 2015 (Atodiad 2) i'w ystyried a'i gymeradwyo. Cyflwynir copi terfynol i'r cyfarfod. Bydd hwn yn cynnwys yr adolygiad a wnaed gan Adain Archwilio Mewnol CSDd (gweler Adran 4).

Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi crynodeb o'r gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2015/16 yn Atodiad 3, sy'n cynnig cyllideb gwariant gros o £420K.

**5. Sut mae'n cyfrannu at Flaenoriaethau Cynlluniau Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy?**

Bydd rheoli cyllidebau refeniw AHNE yn effeithiol yn helpu i gyflawni'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ar gyfer y cynllun rheoli am y flwyddyn hon ac mae'n sail i weithgaredd ym mhob maes, yn arbennig ein perthynas â phartneriaid ariannu a'n cyd-flaenoriaethau.

**6. Beth fydd y gost a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith Cydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad.**

*Amherthnasol*

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Cyflwynwyd cyllideb ddrafft ar gyfer 2015/16 yng nghyfarfod y Cydbwyllgor yn Chwefror. Mae hon bellach wedi ei diwygio er mwyn adlewyrchu'r newidiadau yn y ffrydiau ariannu. Mae'r sefyllfa ariannol yn eitem sefydlog ym mhob cyfarfod o'r Cydbwyllgor.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r sefyllfa ariannol ar gyfer yr AHNE yn 2014/15 a 2015/16. Fel yr argymhellwyd yn yr Adroddiad Cyllid diwethaf, mae'r tanwariant wedi ei ddwyn ymlaen i'w ddefnyddio yn 2015/16.

Mae cymeradwyo ac arwyddo Datganiad Blynyddol SAC hyd at 31 Mawrth 2015 (Atodiad 2) yn ofyniad statudol cyn i'r Archwilwyr Allanol archwilio'r cyfrifon. Mae'r Datganiad ar hyn o bryd gan Adain Archwilio Mewnol CSDd a fydd yn paratoi 'adroddiad archwilio mewnol blynyddol' cyflawn i'r Cydbwyllgor. Bydd y ffurflen gyflawn hon yn cael ei chyflwyno yn y cyfarfod yn ogystal ag unrhyw wybodaeth ddiweddar angenrheidiol ar lafar cyn i'r datganiadau cyfrifo a Datganiad Llywodraethu Blynyddol gael eu cymeradwyo gan y Cydbwyllgor.

Bydd y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2015/16 yn sicrhau sefydlogrwydd ariannol i'r Cydbwyllgor yn ystod y 12 mis nesaf. Serch hynny, rhaid cydnabod o hyd bod cyllidebau pob corff sector cyhoeddus dan bwysau cynyddol oherwydd yr hinsawdd economaidd ac nad yw'n bosibl dibynnu ar lefelau ariannu ar gyfer y dyfodol.

**10. Pa risgiau sydd yna, ac oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae'r gyllideb arfaethedig yn dibynnu ar incwm gan Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru a'r tri Awdurdod Lleol. Bydd unrhyw newidiadau i lefelau incwm gan y rhain yn peri risg i weithredu'r prosiectau yn y dyfodol, ac i'n gallu i sicrhau bod y blaenoriaethau yng Nghynllun Rheoli AHNE yn cael eu cyflawni.

**11. Pŵer i wneud Penderfyniad**

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.